COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 1af HYDREF 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Tim Baker (Cadeirydd), Rhian Jones, Ken Tams, Dave Ritchie, Jackie Bird, Nick Smith, Gruff Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Lyn Evans a Bob Barton.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
A. Y Cyng. Rhian Jones – eitem 6 ar yr agenda.
B. Y Cyng. Tim Baker – eitem 11 ar yr agenda.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 3 Medi 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Cafwyd cadarnhad gan y Cyng. Jackie Bird mai oherwydd ymrwymiadau ychwanegol gofalu am aelod agos o'r teulu y mae'n methu rhoi cymorth gyda Safle We'r Cyngor.
B. Dywedodd y Clerc nad yw Joel Walley, Swyddog Ecoleg Cyngor Sir Ddinbych, wedi ymateb i'r gwahoddiad iddo ddod i'r cyfarfod.
C. Oherwydd diffyg cymorth ynghylch y broblem tamprwydd yn un o dai Maes Derwen yn Llanbedr DC, dywedodd y Cyng. Ken Tams fod y Cyng. Lyn Evans wedi cynnig dod â phensaer i ymchwilio i'r broblem.

5. DIWEDDARIAD AM Y SEDD WAG.
Ar ôl ystyriaeth gan y ddwy ochr, penderfynodd aelodau'r Cyngor gyfethol Mr Gruff Jones i sedd wag y Cyngor. Cwblhaodd ac arwyddodd Mr Jones y "Datganiad Derbyn Swydd" fel Cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd yn briodol, a chymerodd y swydd.

6. DIWEDDARIAD AM Y GANOLFAN GYMUNEDOL.
Diweddarodd y Cyng. Tim Baker y cyfarfod ynghylch y Ganolfan Gymunedol gan ddweud y bydd y cynnig cyfranddaliadau'n mynd rhagddo rhwng 11 Hydref a'r 1af o Ragfyr 2018. Gwerth pob cyfran fydd £1, gydag isafswm o 100 cyfranddaliad ac uchafswm o 15,000 cyfranddaliad.

7. DIWEDDARIAD GOLLYNGIADAU O'R PWYLLGOR.
Mynychodd y Cynghorydd Lyn Evans Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ar 21 Medi 2018. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau ymestyn y gollyngiad am chwe mis, yn cychwyn ar 3 Hydref 2018, i'r Cynghorwyr Lyn Evans, Tim Baker a Dave Ritchie, gan fod y tri ar Bwyllgor y Ganolfan Gymunedol.

8. 'EASY FUNDRAISING'.
Rhoddodd y Cynghorydd Dave Ritchie daflenni gwybodaeth i'r aelodau am "Easyfundraising", sef gwefan sy'n caniatáu i chi hel arian at achos arbennig drwy siopa ar y we. Penderfynodd yr Aelodau gysidro'r wybodaeth cyn cyfarfod nesaf y Cyngor, a chytunodd y Clerc y byddai'n edrych ar yr ochr gyfreithiol o gael y Cyngor fel "Achos" er

mwyn gallu dosbarthu arian i achosion da lleol. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Ritchie am y wybodaeth a gyflwynodd i'r Cyngor.

9. ACHLYSUR GOLEUADAU NADOLIG Y GYMUNED.
Penderfynodd yr Aelodau gynnal achlysur blynyddol "Goleuadau Nadolig y Gymuned" ar ddydd Gwener 30 Tachwedd 2018. Cytunodd y Cyng. Ken Tams i helpu'r Cyng. Lyn Evans i drefnu'r digwyddiad.

10. CAIS CYMORTH GRANT YSGOL LLANBEDR.
Gofynnodd Ysgol Llanbedr i'r Cyngor dalu'r costau ychwanegol am y tŷ gwydr mawr a roddwyd i'r ysgol gan Ivor Richards. Cytunodd yr Aelodau i roi cymorth grant o £600.00, sef 50% o'r £1,200.00 a ragwelir ar gyfer cludiant, ei osod ac yswiriant cyhoeddus.

11. CAIS GRANT PWYLLGOR APÊL LLANBEDR DC (EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020).
Gofynnodd Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 i'r Cyngor am gymorth grant o £807.00 i dalu am gostau digwyddiadau codi arian a drefnwyd gan y Pwyllgor Ardal. Cytunodd yr Aelodau i roi'r cymorth grant llawn o £807.00, yn unol â'r cais.

12. MATERION ARIANNOL.
A. Cyfrifon banc:-
1. Cyfrif Cyfredol gyda'r Nat West £13,906.44.
2. Cyfrif Cadw gyda'r Nat West £9,330.51.
B. Taliad bil awdurdodedig i Brenda Jones am gyfieithu cofnodion y Cyngor - £40.00.
C. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cyngor yn talu 25% o Ffioedd Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn Llanfair y Muallt ar 29 Medi 2018 i'r Cyng. Bob Barton - £23.75.

13. CEISIADAU CYNLLUNIO.
Yn dilyn cyngor y Cyng. Nick Smith, cytunodd yr aelodau ar yr arsylwadau ar y ceisiadau cynllunio canlynol: -
A: Cais: 16/2018/0659 – Manylion am edrychiad, tirlunio, cynllun a maint 1 annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 cod caniatâd amlinellol 16/2017/1074 (cais materion a gadwyd yn ôl): cynllun parcio a throi a manylion draenio dŵr budr a dŵr wyneb a gyflwynwyd yn unol ag amod 7 ac 11 cod caniatâd amlinellol 16/2017/1074 ar gyfer tir (sef rhan o'r ardd) yn Cae Glas, Lon Cae Glas, Llanbedr Dyffryn Clwyd – roedd pryderon ynghylch rhyddhau gwastraff a allai fod wedi'i halogi a materion diogelwch priffyrdd ynghylch mynediad i gerbydau.
B. Cais: 16/2018/0799 – datblygu .01ha o dir drwy adeiladu 2 dŷ fforddiadwy (cais amlinellol gan gynnwys mynediad) ar dir ger Bryn Derw, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad i'r cais amlinellol.
C. Cais: 16/2018/0904 – Addasu'r garej bresennol ar gyfer llety atodol, lle parcio a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig) yn Maenor Plas Isaf, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.

14. HYSBYSIADAU PENDERFYNU CYNLLUNIO CYNGOR SIR DDINBYCH.

A. Gwrthod cais 16/2018/0395 – dymchwel rhan o'r garej bresennol a'r lolfa haul er mwyn adeiladu estyniad un llawr i flaen y tŷ, yn cynnwys garej integrol ac ardal decio yn Nant-y-Brithyll, Llanrhydd.

B. Cais grant 16/2018/0510 – Dymchwel yr ystafell wydr bresennol ac estyniad gyda'r gwaith cysylltiedig yn Robin Hill, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

C. Cais grant 16/2018/0241 – Adeiladu estyniadau ac addasu'r annedd yn Wernog, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

D. Cais grant 16/2018/0713 – Tystysgrif datblygu cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol tir er mwyn gosod carafanau ar dir yn Stoney Lane, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

E. Cais grant 16/2018/0702 – Adeiladu estyniad ac addasu'r annedd yn Panorama Cottage, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

F. Cais grant 16/2018/0697 – Adeiladu estyniadau ac addasu'r annedd yn Nant-y-Brithyll, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

G. Tynnu ceisiadau 16/2018/0645/0646 yn ôl – Adeiladu estyniad, darparu diangfeydd tân ac adeiladu mewnol i wneud canolfan i'r gymuned yn Y Griffin, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

H. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi gwrthod y cais adeilad rhestredig ôl-weithredol ar gyfer ffenestri newydd yn 3 Bathafarn Cottages, Plas-y-Nant, Llanrhydd.

15. GOHEBIAETH.

A. Fe wnaeth Julie Baddock, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llanbedr, ddiweddaru'r Cyngor ynghylch gweithgareddau i gadw'r Ysgol yn agored.

B. Darparwyd "Adroddiad Cynnig Drafft" Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Sir Ddinbych gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Y cynnig ar gyfer Ward Llanbedr Dyffryn Clwyd / Llangynhafal yn Sir Ddinbych yw cynnwys Cymuned Llanferres.

16. ADRODDIAD CYNGOR SIR DDINBYCH.

Mae'r Cynghorydd Huw Williams wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod y 12 mis diwethaf i gael mwy o dai yn y pentref. Mae'n falch o ddweud y bydd datblygwr yn cyflwyno ymgynghoriad i'r pentref yn yr wythnosau nesaf ar gyfer adeiladu 30 a mwy o dai fforddiadwy ar safle'r hen gae pêl droed gyferbyn â Maes Derwen. Yn ogystal, mae'r Cyng. Williams wedi bod yn cydweithio gyda 2 lanc ifanc sy'n gweithio ar fferm y teulu yn Bryn Rhedyn Llanbedr. Maent wedi cyflwyno caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 2 dŷ fforddiadwy, a ddynodir yn y CDLl at y diben hwn, yn Hirwaen. Mae'r Cynghorydd Huw Williams yn gwbl gefnogol i'r ddau gais hyn ac mae'n gobeithio y bydd y Cyngor Cymuned o'r un farn.

17. MATERION BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Ni dderbyniwyd dim.

18. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 5 Tachwedd 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.